Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
DYDD MAWRTH 23 MAI 2017 am 10.00am
SWYDDFEYDD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR SIR BENFRO, DOC PENFRO

Presennol:

Y Cyng Jamie Adams	Arweinydd, Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd)
Bernadine Rees	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-Gadeirydd)
Ian Westley	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro
Alec Don	Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau
Sarah Jennings	Cyfarwyddwr Llywodraethu, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Caroline James	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Cymunedol, Coleg Sir Benfro
Stephen Bradley	Rheolwr Partneriaethau, PLANED
Sue Leonard	Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Tegryn Jones	Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Anna Bird	Pennaeth Datblygu Partneriaeth, Bwrdd iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ian Scale	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Steven Jones (SPJ)	Cyfarwyddwr Datblygu, Cyngor Sir Penfro
Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau De-orllewin Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Rob Quin	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Uwch Arolygydd Ian John	Heddlu Dyfed Powys
Jonathan Feild	Rheolwr Cyflogwyr a Phartneriaethau, Adran Gwaith a Phensiynau
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Yn bresennol

Claire George	Cydlynydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro
Dr Polly Sills-Jones	Cydlynydd Cynllun Llesiant Rhanbarthol
Amy Richmond	Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cymorth/Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Cymorth Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards	Cydlynydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro

Ymddiheuriadau

Dafydd Llywelyn	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dyfed Powys
Steven Moore	Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sharron Lusher	Pennaeth, Coleg Sir Benfro
Helen Matthews	Uwch Reolwr Cydberthnasau Allanol, Canolfan Byd Gwaith

Dechreuodd y cyfarfod am 10.10am.

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Cynhaliwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch at y sawl gafodd eu lladd a'u hanafu yn yr ymosodiad ar Arena Manceinion y noson gynt.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r aelodau i'r cyfarfod gorfodol hwn o'r BGC. Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

Yn dilyn y llun a dynnwyd o Aelodau'r BGC cyn y cyfarfod ar gyfer cyfarfod lansio Gwobrau Balchder yn Sir Benfro, rhoddodd NE amlinelliad cryno o sut fyddai'r gwobrau yn gweithio ac amlinelliad o'r trefniadau ar gyfer y cyfryngau. Byddai'r gwobrau yn debygol o gael eu lansio tuag at ddiwedd Mehefin.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd dydd Llun 3 Ebrill 2017 yn gofnod manwl gywir.

3. Log Gweithredu

1 – Cronfa gyfun y BGC

Esboniodd NE bod oedi ar y mater hyd y bydd datblygiadau pellach

2 – Asesiad Llesiant

Ychwanegwyd paragraff ychwanegol i'r asesiad fel y trafodwyd

3 – Amcanion Llesiant

Dosbarthwyd Amcanion Llesiant Partneriaid Statudol i holl aelodau'r Bwrdd ddechrau mis Mai.

4 – Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

Bydd partneriaid yn derbyn manylion o'r ddolen i'r adroddiad. **NE**

5 – Ymateb i Gynllun Strategol Drafft Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Drafftiwyd ymateb a'i anfon i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn Ebrill.

6/7 – Digwyddiad ar gyfer Staff Rheng Flaen

Cysylltodd LR â staff rheng flaen i ofyn rhai cwestiynau pellach yn dilyn y digwyddiad a gynhaliwyd yn Ionawr. Dosbarthwyd y cyfeirlyfr staff hefyd i bawb a fynychodd y digwyddiad. Bydd yn trefnu i gyfarfod IJ/SJ gyda golwg ar gynllunio digwyddiad pellach yn ne'r Sir. **LR/IJ/ SJ**

8 – Kate Chamberlain

Anfonwyd llythyr at Kate Chamberlain o LIC yn diolch iddi am ei chyfraniad i waith y BGC.

9 – Cylch Gorchwyl

Roedd dolen i'r Cylch Gorchwyl wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod, ac roedd copi hefyd yn y pecyn agenda.

10 – Cyflwyniad Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Byddai cyflwyniad gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn cael ei drefnu maes o law.

4. Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y BGC ar gyfer 2017-18

Hysbysodd JA yr aelodau o ganlyniad etholiadau'r cyngor diweddar, ac esboniodd y byddai'r Cyngor yn ethol Arweinydd newydd yn ddiweddarach yn yr wythnos. Awgrymodd bod partneriaid yn trafod a oedd yn briodol iddynt symud ymlaen i benodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd yn y cyfarfod hwn, neu a fyddai'n well ganddynt ohirio hynny hyd y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

Penderfynodd y partneriaid y byddai'n well ganddynt symud ymlaen i benodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn hytrach na gohirio hyn hyd y cyfarfod nesaf. Ar ôl toriad byr i ystyried pwy fyddai'r partneriaid yn dymuno eu henwebu, ac yn dilyn pleidlais, penodwyd TJ yn Gadeirydd a SL yn Is-Gadeirydd am y 12 mis nesaf. Diolchodd TJ i JA a BR am weithredu fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y BGC am y 12 mis diwethaf.

5. Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Amlinellodd NE y gofynion ar gyfer adolygu cylch gorchwyl y Bwrdd mewn cyfarfod gorfodol o'r BGC. Awgrymwyd nifer o newidiadau yn yr adroddiad cryno a ddosbarthwyd i aelodau'r Bwrdd cyn y cyfarfod, a gwnaed awgrymiadau pellach fel a ganlyn:

- Ychwanegu Iechyd Cyhoeddus Cymru i Adran 9
- Newid y Bwrdd Prawf i'r Bwrdd Prawf Cenedlaethol yn Adran 9

Bydd NE yn newid y ddogfen lle bo angen ac yn ail-ddosbarthu copi i'r partneriaid. **NE**

Nododd NE ei bod yn debygol y bydd yr is-bartneriaethau a restrir ar hyn o bryd yn y Cylch Gorchwyl yn newid i adlewyrchu blaenoriaethau newydd y Cynllun Llesiant unwaith y bydd wedi'i ddatblygu, ac y bydd y rhain felly yn cael eu newid pan gaiff y Cylch Gorchwyl ei adolygu eto ymhen 12 mis.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40am.